**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

**ADRODDIAD I'R:** **Pwyllgor Moeseg a Safonau**

**DYDDIAD:** **05 Mehefin 2023**

**TEITL:** **Asesiad Cydymffurfio Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol**

**PWRPAS YR ADRODDIAD:** **Er gwybodaeth**

**CEFNDIR**

Mae arweinwyr grwpiau'n destun dwy ddyletswydd statudol newydd:

i. Cymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau'r grŵp
ii. Cydweithredu â'r Pwyllgor Safonau wrth arfer swyddogaethau'r Pwyllgor Safonau.

**Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: Adran 62**

O dan god ymddygiad y Cynghorwyr, gellir ystyried bod arweinwyr grwpiau sy'n methu â chyflawni'r dyletswyddau'n dwyn anfri ar eu swydd; nid yw'r ddyletswydd yn gwneud arweinwyr grwpiau'n atebol am ymddygiad eu haelodau.

Mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau o dan ddyletswydd i:

a) fonitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol y cyngor gyda'u dyletswyddau, a hefyd

b) cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol y cyngor ynghylch materion sy'n ymwneud â'r dyletswyddau hynny.

**Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: Adran 63**

Hefyd, mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau o dan ddyletswydd i baratoi adroddiad blynyddol sydd:

a) yn gorfod cynnwys asesiad y pwyllgor o'r graddau y mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol y cyngor wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau, ac

b) yn gallu cynnwys argymhellion neu sylwadau am hyd a lled y gydymffurfiaeth â'r dyletswyddau newydd hyn.

Mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau'n annibynnol oddi wrth faterion gweithredol a bydd yn gofyn i arweinwyr y grwpiau adrodd unwaith y flwyddyn. Yna bydd y Pwyllgor yn cyfarfod â phob arweinydd grŵp yn anffurfiol i archwilio eu hadroddiadau.

Bydd adroddiad blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau'n cynnwys y canlynol:

a) crynodeb byr o’r camau a gymerwyd gan arweinwyr y grwpiau i gyflawni’r ddyletswydd,
b) barn y Pwyllgor ynghylch a wnaed digon,
c) unrhyw argymhellion ynghylch beth y gallai arweinwyr y grwpiau ei wneud i gyflawni eu dyletswyddau,
d) unrhyw argymhellion ynghylch beth y gellid ei ddefnyddio fel tystiolaeth ar gyfer camau gweithredu arweinwyr y grwpiau,
e) unrhyw argymhellion ynghylch beth y gellid ei wneud er mwyn gwella’r mecanwaith adrodd,
f) pa hyfforddiant ychwanegol sydd ei angen,
g) unrhyw ddarnau o waith y gellid eu gwneud yn y dyfodol ac ati.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**
Cwblhaodd Arweinwyr y Grwpiau eu hadroddiadau erbyn 30/4/23. Ar 15/5/23, cynhaliwyd gweithdy yn unigol gyda’r canlynol:

· Y Cynghorydd Bryan Davies (Plaid Cymru)

· Y Cynghorydd Elizabeth Evans (Y Democratiaid Rhyddfrydol)

· Y Cynghorydd Gareth Lloyd (Y Grŵp Annibynnol)

Aeth y Pwyllgor ati i asesu i ba raddau yr oedd arweinwyr y grwpiau gwleidyddol wedi:

1. cymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau’r grŵp

2. cydweithredu â’r Pwyllgor wrth arfer swyddogaethau’r Pwyllgor

3. nodi unrhyw anghenion o ran hyfforddiant.

Roedd y Pwyllgor o’r farn bod:

1. Arweinwyr y grwpiau wedi cymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau’r grŵp, ac wedi gwneud hynny mewn ffordd ystyrlon, er bod diffyg tystiolaeth a metrigau yn yr adroddiadau.

Er bod arweinwyr y grwpiau gwleidyddol yn credu eu bod nhw wedi gwneud digon i hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau’r grŵp, nid oedd digon o dystiolaeth i gefnogi hyn. Roedd yr ymatebion yn oddrychol ac yn annelwig, ac nid oeddent yn canolbwyntio ar y Cod Ymddygiad.

2. Roedd arweinwyr y grwpiau wedi cydymffurfio â’u dyletswydd i gydweithredu â’r Pwyllgor wrth arfer swyddogaethau’r Pwyllgor.

3. Dylai holl arweinwyr y grwpiau sicrhau bod aelodau eu grwpiau’n cwblhau’r hyfforddiant ar-lein ynghylch y cyfryngau cymdeithasol.

Argymhellion neu sylwadau ynghylch y lefel o gydymffurfiaeth â’r dyletswyddau newydd hyn:

- Dylai pob arweinydd grŵp sicrhau bod aelodau eu grwpiau'n cwblhau'r hyfforddiant ar-lein ynghylch y cyfryngau cymdeithasol.
- Dylid darparu hyfforddiant ychwanegol ar gyfer 2023/2024 er mwyn sicrhau bod arweinwyr y grwpiau'n cwblhau'r templedi mewn modd digonol, gyda mwy o fetrigau a thystiolaeth.
- Parhau i ymgysylltu â'r Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r Swyddog Monitro mewn modd rhagweithiol.
- Parhau i ymgysylltu ag arweinwyr y grwpiau eraill i ddysgu oddi wrthynt a chefnogi eich gilydd i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol.
- Parhau i ddefnyddio cyfarfodydd y grwpiau i ddarparu cyfleoedd i fentora'n anffurfiol.
- Parhau i ddefnyddio cyfarfodydd y grwpiau i rannu achosion a gwersi a ddysgwyd, a dylid ystyried cynnwys achosion Panel Dyfarnu Cymru / Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel eitem sefydlog ar yr agenda.
- Argymell i'r aelodau na ddylent arwyddo deisebau.

**ARGYMHELLIAD / ARGYMHELLION:** Nodi'r sefyllfa bresennol a fydd yn cael ei chynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Moeseg a Safonau.

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD / ARGYMHELLION:**
Mae'r argymhellion yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

**Enw Cyswllt:** **Elin Prysor**
**Swydd:** **Swyddog Monitro**
**Dyddiad yr Adroddiad:** **19 Mai 2023**
**Acronymau:**